ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY) Bwletin #1 – Ionawr 2019

30 Ionawr 2019
Fersiwn: CBGY/01/2019

Mae'r bwletin hwn a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar y datblygiadau diweddaraf o ran CBGY.

Ynglŷn â CBGY

Casgliad gorfodol o ddata lefel unigol o'r gweithlu ysgolion yw CBGY a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2019.

Bydd angen i bob ysgol a gynhelir ac awdurdod lleol gyflwyno data. Bydd y data a gesglir yn cynnwys data cyfredol a data hanesyddol o'r flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd y data yn cael ei godi o systemau gwybodaeth reoli ysgolion a systemau cyflogres ac adnoddau dynol awdurdodau lleol. Mae'r cyfrifiad yn cael ei gyflwyno mewn 2 gam er mwyn galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer casglu data ôl-weithredol.

Amserlen cyflwyno'r cyfrifiad:

Cam 1: 5 Tachwedd 2019 (dyddiad y cyfrifiad wedi'i gadarnhau) **Casglu'r data:** cyflwyno data 'cyfredol'
Cam 2: Tachwedd 2020 (dyddiad y cyfrifiad i'w gadarnhau) **Casglu'r data:** cyfrifiad llawn gyda data cyfredol a hanesyddol

Gyda dyddiad cyfrifiad 2019 wedi'i gadarnhau, dylai awdurdodau lleol gysylltu ag ysgolion i drafod sut y gweithredir CBGY a'r prosesau ar ei gyfer.

Bydd data o'r cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol mewn cyhoeddiad newydd gan Lywodraeth Cymru, ac ar StatsCymru ar lefel gyfanredol.

Ar ôl cadarnhau cywirdeb a dibynadwyedd y data yn CBGY, bydd yn disodli'r casgliadau ar Daliadau ac Absenoldeb Salwch Athrawon, ac elfennau gweithlu y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), ond bydd y casgliadau hyn yn parhau am y tro.

Adnoddau sydd ar gael a datblygiadau

Yn ddiweddar, mae swyddogion cyswllt wedi derbyn pecynnau gwybodaeth am ysgolion sy'n cynnwys y dogfennau canlynol:

- Cyflwyniad Cymraeg a Saesneg wedi'i dargedu at ysgolion i'w hysbysu am CBGY a'r wybodaeth y bydd angen iddynt ei darparu; ac
- Atodiad drafft o'r nodiadau cwblhau sy'n cynnwys yr eitemau data a'r setiau cod ar gyfer y CBGY, ynghyd â gwybodaeth am bwy fydd yn darparu pa eitemau. Bydd y nodiadau cwblhau llawn ar gael cyn mis Medi 2019.

Manylion Cyswllt

Ysgolion:
Os oes gan ysgolion unrhyw gwestiynau am CBGY, dylent gysylltu â swyddog cyswllt System Rheoli Gwybodaeth eu hawdurdod lleol gyntaf.

Awdurdodau Lleol:
Ar gyfer cwestiynau gan awdurdodau lleol am y bwletin hwn neu am CBGY yn gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â ni yn:
Tîm System Rheoli Gwybodaeth
Ffôn: 03000 625014
IMS@llyw.cymru

Tîm ystadegau gweithlu ysgolion
Ffôn: 03000 625105
Ffôn (Cymraeg): 03000 255968
educationworkforcedata@llyw.cymru

Yn y bwletin hwn:

- Ynglŷn â CBGY
- Adnoddau a Datblygiadau
- Digwyddiadau ac ymgysylltu
- Beth i'w wneud nesaf

Hysbysiadau Preifatrwydd: Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer staff ysgolion a fydd yn cael ei anfon at awdurdodau lleol i'w ddosbarthu ochr yn ochr â'u hysbysiadau eu hunain. Disgwylir anfon hwn maes o law.

Nodiadau cwblhau: Rydym yn drafftio'r nodiadau cwblhau ac yn disgwyl gallu sicrhau bod drafft ar gael i awdurdodau lleol yn ystod tymor y gwanwyn. Bydd diweddariadau ar gynnydd y nodiadau cwblhau yn cael eu hanfon allan yn y bwletin nesaf.

Digwyddiadau ac ymgysylltu

Cyfarfod technegol dilysiadau CBGY 30- Cynhaliwyd cyfarfod technegol gyda chyflenwyr meddalwedd i drafod dilysiadau ar gyfer cyflwyniadau CBGY ysgolion ac awdurdodau lleol.

Ymgysylltu â chyflenwyr awdurdodau lleol:
Yn ddiweddar, cynhaliwyd gweithdai yn y Gogledd a'r De ar gyfer cyflenwyr meddalwedd cyflogres ac adnoddau dynol awdurdodau lleol. Yn ystod y gweithdai hyn, trafodwyd unrhyw ddatblygiadau a allai fod eu hangen yn systemau awdurdodau lleol i godi'r data perthnasol yn y fformat cywir.

Ymgysylltu â chyflenwyr meddalwedd ar gyfer datblygu System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn ymgysylltu'n eang â Capita i drafod gofynion ar gyfer CBGY. Bydd cwsmeriaid System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion yn cael eu hysbysu pan fydd y diweddariadau sy'n berthnasol i CBGY yn debygol o gael eu rhyddhau.

Beth i'w wneud nesaf

Dylai awdurdodau lleol ddechrau cysylltu â'u hysgolion i'w hysbysu am CBGY, gan ddefnyddio neu anfon y cyflwyniadau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru lle'n briodol.

Dylai awdurdodau lleol gadarnhau gyda'u cyflenwyr meddalwedd cyflogres ac adnoddau dynol eu bod yn ymwybodol o CBGY ac wedi bod yn un o'r cyfarfodydd cyflenwyr meddalwedd, neu fel arall wedi bod mewn cysylltiad â ni am CBGY.

Efallai y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol am ddechrau diweddaru'r wybodaeth berthnasol yn eu systemau yn barod ar gyfer CBGY. Ni fydd rhai eitemau yn yr atodiad ar gael eto ar y System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion. Fodd bynnag, bydd deall pa eitemau a fydd yn cael eu casglu yn helpu ysgolion i baratoi ar gyfer casglu'r data gan staff. Er mwyn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i gasglu'r data, mae Llywodraeth Cymru yn paratoi hysbysiad preifatrwydd a fydd ar gael maes o law.

Disgwylir cyhoeddi'r bwletin hwn bob mis wrth i ni agosáu at y cyfrifiad.

Copïau ychwanegol:
Gellir cyrchu'r ddogfen hon ar dudalennau Software Development Forum DEWi.

OGL
© Hawlfraint y Goron Ionawr 2019
WG36444